| CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD (2011 - 2026) | |
|---|---|
| **ARCHWILIAD CYHOEDDUS:**<br>**Sesiwn Gwrandawiad 16 - Monitro a Gweithredu a Materion Amrywiol** | CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |

**[1] Pwynt Gweithredu 43 (S16/PG43]**

**Paratoi nodyn esboniadol i fynd gyda'r fframwaith monitro diwygiedig i esbonio'r berthynas rhyngddo a'r Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

1.1 **Ymateb y Cynghorau**

1.2 Mae Cyfarwyddeb AAS yr UE a Rheoliadau AAS y DU yn ei gwneud yn ofynnol y dylid monitro effeithiau sylweddol (cadarnhaol a negyddol) gweithredu'r cynllun er mwyn nodi unrhyw effeithiau nas rhagwelwyd ar gam cynnar a gallu i gymryd camau unioni priodol. Mae canllawiau Llywodraeth y DU ar AC/AAS yn cynghori y dylid defnyddio trefniadau monitro presennol lle bo modd er mwyn osgoi dyblygu. Caiff y dull hwn ei gadarnhau gan ganllawiau Llywodraeth Cymru sy'n cynghori y gall monitro AAS gael ei integreiddio ag Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB), sy'n ofyniad statudol ar gyfer cynlluniau datblygu lleol. Ystyrir Adroddiad Monitro'r Cynllun yn ddigonol i sicrhau bod gwaith monitro priodol yn digwydd o ran yr AC/ AAS.

1.3 Nid oes unrhyw ddarpariaethau statudol penodol o ran monitro yn dilyn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Fodd bynnag, byddai monitro priodol o effeithiau cynllun ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd yn ddarpariaeth ddarbodus yn y monitro cynigion i'w hymgorffori yn yr AC/AAS a'r AMB. Mae cyflwr y safleoedd Ewropeaidd yn cael ei fonitro gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a gall hyn gael ei effeithio gan amrywiaeth o ffactorau nad ydynt o fewn dylanwad y Cynllun.

1.4 Mae Tabl 9.1 yn yr Adroddiad AC (sy'n cynnwys gofynion ar gyfer AAS) yn adnabod 11 o amcanion AC, ac mae'n darparu is-gyfres o 16 o dargedau posib. Mae'r tabl yn darparu cyfres o ddangosyddion AC posib. Mae'r Adroddiad AC yn cynnig bod sgôp y monitro AMB yn cynnwys y dangosyddion yma. Cafodd y dangosyddion AC posib er mwyn adlewyrchu materion allweddol a gafodd eu hadnabod fel rhan o'r ymarfer sgopio, ac

maent yn cynrychioli ystod o fesurau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i alluogi adnabod os ydi amcanion/ targedau AC yn cael eu cyrraedd. Mae’r Adroddiad AC yn tynnu sylw yn 7.4 i’r adolygiad posib o’r dangosyddion fel mae’r Cynllun yn cael ei ddatblygu.

1.5 Mae monitro'r Cynllun yn ymwneud ag asesu perfformiad polisïau yn cyflwyno strategaeth y cynllun a chyflawni ei amcanion, ac mae llawer yn ymwneud yn uniongyrchol a datblygu cynaliadwy. Fel y cyfryw, ceir gorgyffwrdd sylweddol rhwng fframwaith monitro'r Cynllun a fframwaith monitro'r AC. Yn yr AMB, lle y bo'n briodol, bydd pob un o amcanion yr AC felly yn cael eu hasesu yn erbyn y dangosyddion monitro'r Cynllun sy'n berthnasol i amcanion cynaliadwyedd.

1.6 Mae Pennod 8 Monitro & Gweithredu'r Cynllun yn cynnwys y fframwaith monitro a fydd yn cael ei ddefnyddio i adolygu cynnydd y Cynllun ac i asesu effeithiolrwydd ei bolisïau a’i gynigion. Mae’r Cynghorau wedi ceisio sefydlu fframwaith fonitro sengl sy’n cysylltu dangosyddion i amcanion AC er mwyn adnabod effeithiau arwyddocaol gweithredu polisi. Er mwyn tynnu sylw at y dull integredig arfaethedig i asesu’r Cynllun, mae Newidiadau Materion sy’n Codi I’r fframwaith monitro yn cynnwys cyfeiriadau i amcanion AC perthnasol yn y golofn ‘Croesgyfeiriad’.

1.7 Er mwyn pwysleisio’r dull integredig mae Tabl 9.1 o’r Adroddiad AC wedi cael ei gynnwys ar y tudalennau nesaf ac mae’n adnabod dangosyddion y Cynllun, ystyrir i fod efo cysylltiad uniongyrchol gyda thargedau a dangosyddion AC posib.

1.8 Mae’r Adendwm diweddaraf i’r Adroddiad AC a’r Adroddiad ARhC yn cofnodi canfyddiadau’r ymarfer sgrinio o’r Newidiadau Materion sy’n codi. Mae’n dod i gasgliad bod y dangosyddion a thargedau newydd yn gwella perfformiad cynaliadwyedd y Cynllun, yn unol â dangosyddion a thargedau a welir yn erbyn amcanion AC unigol. Felly, maent yn newidiadau bach i ddarparu eglurhad pellach ac nid ydynt yn cael effaith arwyddocaol ar ganfyddiadau’r AC na’r ARhC.

| | Targedau Potensial | Dangosyddion Potensial | Dangosyddion y Cynllun |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC: Bioamrywiaeth** | | | |
| **1.** | Cynnal a mwyhau buddion bioamrywiaeth a chysylltedd | ▪ Colled bioamrywiaeth drwy ddatblygiad sy'n cael ei fesur drwy golled neu ardrawiad i safleoedd rhyngwladol (h.y. Natura 2000), safleoedd cenedlaethol (e.e. SoDdGA) a safleoedd lleol yn ardal y CDLl.<br>▪ Gwir golled bioamrywiaeth yn ardal y Cynllun oherwydd datblygiad.<br>▪ % o nodweddion (gwahanol fathau) mewn cyflwr ffafriol, gan gynnwys nodweddion ar y tir ac ar y môr<br>▪ Llwyddiant amcanion a thargedau BAP (DU a gwledydd penodol/rhanbarthol/ lleol)<br>▪ Tueddiadau a statws NERC 2006, Rhan 42 rhywogaethau / cynefinoedd.<br>▪ Nifer ac arwynebedd SINCs a GNL o fewn y Cynllun. | ▪ D59 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn lleol<br>▪ D60 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol neu ar safleoedd sy'n effeithio ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth y safleoedd a ddynodwyd |
| **Amcan AC: Cymuned ac Iechyd** | | | |
| **2.** | Gwella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd rhwng ardaloedd a grwpiau cymdeithasol.<br><br>Gwella rhyngweithiad a | ▪ % cyfanswm poblogaeth gyda mynediad at wasanaethau allweddol.<br>▪ Mesurau iechyd sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw (e.g. gorbwysedd) – Arolwg Iechyd Cymru. | ▪ D5 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir lle cafwyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr<br>▪ D6 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer newid defnydd cyfleusterau cymunedol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chynhwysiad cymunedol. | | ▪ D7 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau amgen ar fannau agored<br>▪ D8 Mannau agored (ha) a sicrheir mewn cyswllt â datblygiad preswyl o 10 neu fwy o unedau<br>▪ D9 Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â darparu mannau agored mewn datblygiadau tai newydd<br>▪ D12 Nifer o geisiadau cynllunio gydag Asesiad Teithio |
| **Amcan AC: Newid Hinsawdd** | | | |
| **3.** | Lleihau achosion newid hinsawdd ac addasu i'r ardrawiadau | ▪ % newid mewn allyriad carbon deuocsid gan ddiwydiant /masnach, domestig, trafnidiaeth ffordd a'r sector coedwigaeth. | ▪ D12 Nifer o geisiadau cynllunio gydag Asesiad Teithio<br>▪ D21 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy annibynnol a ganiateir, fesul technoleg, ardal (Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Môn a Gwynedd) ac allbwn ynni a gofnodir (GWh) |
| **Amcan AC: Yr Iaith Gymraeg** | | | |
| **4.** | Hyrwyddo a mwyhau'r iaith Gymraeg | ▪ Nifer/ % siaradwyr Cymraeg | ▪ D1 % Siaradwyr Cymraeg yn 2021 yn Ynys Môn a Gwynedd<br>▪ D4 Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC: treftadaeth/diwylliant** | | | |
| **5.** | Gwarchod a hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol ac asedau diwylliannol | ▪ Nifer o asedau hanesyddol dan risg / newid yn y nifer dan risg | ▪ D62 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir mewn Ardaloedd Cadwraeth a Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n effeithio ar eu gwerth hanesyddol neu ddiwylliannol<br>▪ D63 Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud ag Asedau Treftadaeth |
| **Amcan AC: Economi, cyflogaeth** | | | |
| **6.** | Gwella a mwyhau cyfleoedd cyflogaeth, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig.<br><br>Datblygu economi sy'n ffynnu ar draws y sectorau i gyd ac i bob preswylydd. | ▪ Actifedd economaidd fesul sector<br>▪ Statws cyflogaeth preswylwyr dros 16 mlwydd oed.<br>▪ Nifer o bobl yn cymudo i mewn ac allan o ardaloedd awdurdodedig. | ▪ D35 Statws cyflogaeth pobl 16+ oed<br><br>▪ D36 Nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd |
| **Amcan AC: Tai, fforddiadwy** | | | |
| **7.** | Gwella ansawdd ac argaeledd y stoc dai presennol ble bo'i angen.<br><br>Danfon tai fforddiadwy sy'n diwallu angen lleol. | ▪ Nifer o unedau tai fforddiadwy sy'n cael ei ddarparu bob blwyddyn fel canran o'r holl unedau. | ▪ D47 Cyfanswm nifer tai fforddiadwy ychwanegol a gaiff eu hadeiladu yn ardal y Cynllun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC: Tirwedd a threfwedd** | | | |
| **8.** | Gwarchod a mwyhau'r dirwedd drefol a gwledig. | ▪ Cyfran o'r dirwedd o ansawdd uchel/uchel iawn fel mae wedi ei adnabod gan LANDMAP<br>▪ Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn yr AHNE<br>▪ Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn ardaloedd wedi eu categoreiddio'n bwysig gan LANDMAP | ▪ D61 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar gyfer datblygiad mawr mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).<br>▪ D24 Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio |
| **Amcan AC: Tir, mwynau a gwastraff** | | | |
| **9.** | Lleihau gwastraff a hyrwyddo ailgylchu, ail-ddefnyddio ac adferiad. | ▪ % cyfradd datblygiad ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.<br>▪ % gwastraff bwrdeistrefol a yrrwyd i'w dirlenwi<br>▪ % ail-ddefnyddio / ailgylchu gwastraff bwrdeistrefol | ▪ D19 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau a ddatblygwyd bob blwyddyn<br>▪ D64 Swm o dir a chyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yn ardal y Cynllun |
| **Amcan AC: Trafnidiaeth a mynediad** | | | |
| **10.** | Lleihau'r angen i deithio a lleihau'r nifer o siwrnai gyda cheir preifat.<br><br>Gwella mynediad at opsiynau | ▪ Dull o deithio i'r gwaith - % o'r boblogaeth weithiol sy'n teithio gyda char<br>▪ Canran datblygiad preswyl o fewn 30 munud (amser trafnidiaeth gyhoeddus)<br>▪ Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. | ▪ D12 Nifer o geisiadau cynllunio gydag Asesiad Teithio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | trafnidiaeth gynaliadwy. | - % cynnydd yn y rhwydwaith beicio<br>- Cyfradd adnoddau tanwydd lpg ar gyfer cerbydau modur. | |
| **Amcan AC: Dŵr a pherygl llifogydd** | | | |
| **11.** | Gwella ansawdd dŵr a hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy dŵr.<br><br>Lleihau'r risg o lifogydd i bobl a chartrefi | - % o ddatblygiadau newydd gyda systemau draenio cynaliadwy.<br>- % cyrff dŵr gyda statws ecolegol da neu botensial<br>- Cyfradd / nifer absoliwt o ddatblygiadau yn C1 ac C2 (fel y'i diffinnir yn NCT15). | - D17 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir gan gategori NCT 15 mewn ardaloedd gorlifdir C1<br>- D18 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C2 |